Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018.

Yn Bresennol:
Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet (eitem 2 ymlaen), Angela Maguire-Lewis, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Arun Midha, Alun Llwyd, Caroline Burt (eitem 2 ymlaen), Claire Morgan (ddim yn bresennol ar gyfer eitemau 10-14).

Hefyd yn y Cyfarfod:
Helen Bushell (HB), Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Kate Crabtree (KC), Kerry Price (KP) – eitem 10, Kate Welsher (KW) - eitem 8, Gareth Downey (GD) - eitem 6, Patricia McCabe (arsylwr allanol), Alison Rees (AR) - Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:
David Jones.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Ddiddordeb, Papurau i'w Nodi

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan egluro y byddai Patricia McCabe yn ymuno â chyfarfod y Bwrdd fel arsylwr ar ôl rhoi rhywfaint o hyfforddiant llywodraethu i'r Bwrdd yn ddiweddar. Eglurodd y Cadeirydd fod hyn yn rhan o'r adolygiad o berfformiad y Bwrdd.

1.2. Gofynnwyd am unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. Cadarnhaodd Robert Lloyd Griffiths ei fod wedi'i benodi'n aelod o Fwrdd Cynghori Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd nas cyhoeddwyd eisoes ar y rhestr sefydlog o ddatganiadau.

1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth yr hoffent ei drafod yn deillio o'r papurau gwybodaeth. Rhoddwyd papur y Strategaeth TG ar yr agenda a chytunwyd i'w drafod o dan eitem 9 (rheoli risg).

1.4. Nodwyd yr holl bapurau gwybodaeth a oedd yn weddill (Rhagolwg y Bwrdd, Strategaeth Cymwysterau Cymru, Cynllun Strategol Gallu Corfforaethol a chofnodion y Pwyllgor Rheoleiddio ar 20 Medi 2017).

Sesiwn allanol – Cadeirydd CCEA

Croesawodd y Cadeirydd Gadeirydd CCEA i'r cyfarfod a diolchodd iddo am ei amser. Cafwyd cyflwyniad yn amlinellu taith CCEA dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â'i ddull llywodraethu a datblygiad/dysg y Bwrdd. Diolchodd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd i Gadeirydd CCEA am gyflwyniad a thrafodaeth ddefnyddiol, llawn gwybodaeth.

Newidiodd trefn rhai eitemau ar yr agenda yn ystod y cyfarfod. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu'r drefn ar yr agenda.

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 a'r Materion sy'n Codi

2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau teipograffyddol a newid bach i baragraff 4.5. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.

2.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y pedwar cam gweithredu yn y cofnodion, yr oeddent i gyd wedi'u cwblhau.

Materion sy'n Codi

2.3. Gofynnodd y Bwrdd pryd y byddai'r Bwrdd yn cael gweld y polisi Trosglwyddo Amodau i'w gymeradwyo. Cadarnhaodd PB y caiff y polisi ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoleiddio cyn ei ddychwelyd at y Bwrdd maes o law.

2.4. Gofynnodd y Bwrdd pryd y byddai penderfyniad ynghylch darparu TGAU Seicoleg yn Gymraeg yn cael ei wneud. Cadarnhaodd PB fod gwybodaeth am y nifer debygol o ysgolion yng Nghymru a fyddai'n ei gynnig wedi'i rhoi i CBAC ac y byddai'n gwneud penderfyniad terfynol yn ei gylch ym mis Chwefror.

2.5. Nid oedd materion eraill yn codi.

Cam Gweithredu: HB i ychwanegu'r polisi Trosglwyddo Amodau at Ragolwg y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoleiddio.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Y Diweddaraf gan y Cadeirydd

3.1. Rhoddodd y Cadeirydd (AE) y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol i'r Bwrdd.

3.2. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hatgoffa o'r adolygiadau o berfformiad aelodau'r Bwrdd oedd ar ddod a rhaglen hyfforddi'r Bwrdd a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth.

3.3. Cafodd adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru ei ystyried gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Rhagfyr. Roedd PB ac AE wedi bod yn bresennol. Canolbwyntiwyd ar adnoddau i gefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg a chadarnhaodd PB y byddai rhywfaint o ymchwil yn cael ei gwneud er mwyn penderfynu beth yw ystyr adnoddau 'digonol' fel sy'n ofynnol drwy'r Amodau Cydnabod Safonol. Hefyd nododd PB fod Ofqual yn gwneud gwaith tebyg. Eglurodd y byddai'r gwaith yn helpu i lywio ein dull o ymdrin â'r cwricwlwm

newydd o ran adnoddau. Nododd y Bwrdd fod y sesiwn graffu wedi mynd yn dda a llongyfarchodd AE a PB am gyflwyno'r adroddiad.

3.4. Nododd AE fod cais wedi'i wneud am gyfarfod gydag Eluned Morgan AC, Gweinidog newydd y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Hefyd gofynnwyd am gyfarfod gyda Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

3.5. Roedd AE a PB wedi cyfarfod ddwywaith ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (6 Rhagfyr 2017 ac 17 Ionawr 2018) ynghylch adnoddau ar gyfer cymwysterau diwygiedig a'n hadolygiad o Fagloriaeth Cymru. Bu'r ddau gyfarfod yn gadarnhaol.

3.6. Roedd AE a PB wedi mynd i ddigwyddiad lansio Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, a ddosbarthwyd yn electronig ymhlith y Bwrdd.

3.7. Nodwyd y byddai cyfnod Alun Llwyd fel aelod o'r Bwrdd yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Cafodd Alun ei benodi am gyfnod o 18 mis o fis Medi 2016 ac oherwydd iddo gael ei gyd-ethol i'r Bwrdd gan y Gweinidog yn hytrach na thrwy benodiad cyhoeddus ni ellid ymestyn ei benodiad drwy ei ailbenodi. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai cyfarfod mis Mawrth 2018 fyddai cyfarfod Bwrdd olaf Alun.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cafodd newyddion diweddaraf y Cadeirydd ei nodi gan y Bwrdd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei adroddiad Prif Swyddog Gweithredol gan nodi iddo ganolbwyntio ar feysydd nas trafodwyd rywle arall ar yr agenda. Cafodd y prif bwyntiau eu crynhoi fel a ganlyn:

4.2. ***Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol*** – nododd PB fod y prosiect yn un dynamig a'i fod yn datblygu drwy'r amser. Cydnabu PB fod cydberthnasau â'r prif randdeiliaid yn hollbwysig a nododd ei fod ar fin cyfarfod â Phrif Swyddog Gweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru. Trafododd y Bwrdd y prosiect yn fanylach ac ystyriwyd rhai syniadau o ran rheoli rhanddeiliaid a rheoli newid. Cadarnhaodd KC fod proses gaffael a rennir i benodi cwmni cysylltiadau cyhoeddus ar waith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill. Gofynnodd y Bwrdd a gafodd rhai o'r heriau presennol eu darogan. Cadarnhaodd KC fod llawer wedi'u darogan, ond nid pob un.

4.3. ***Prosiect Casglu Data*** – cadarnhaodd PB fod Cymwysterau Cymru wedi dechrau casglu data ar gymwysterau cyffredinol a bod y cyhoeddiad ystadegol cyntaf wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017. Bydd Ofqual yn parhau i gasglu data ar gymwysterau galwedigaethol ar ein rhan nes ein bod yn barod i wneud hynny ein hunain. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer templedi casglu cymwysterau cyffredinol wedi gorffen ac, ar ôl adolygu'r ymatebion, penderfynwyd dilyn templedi Ofqual a chasglu data heb eu cyfuno. Roedd hyn yn groes i'n dewis opsiwn yn yr

ymgynghoriad ond adlewyrchai ddymuniad y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu, sef ein bod yn lleihau'r baich rheoleiddiol drwy ddilyn gofynion Ofqual, yr oedd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu eisoes wedi datblygu eu systemau ar eu cyfer. Nododd PB y câi hyn ei adolygu pan fyddai'r diwygiadau i gymwysterau cyffredinol wedi'u cyflwyno'n llawn ac y byddai'r rhan helaeth o ddata yn cael ei darparu gan CBAC yn unig.

4.4. ***Gwefan*** – cadarnhaodd PB fod y gwefan wedi'i hailddylunio a'i phrofi gyda chyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill. Byddai'r fersiwn newydd yn mynd yn fyw yn yr ychydig ddiwrnodau nesaf.

4.5. ***Staffio*** – diolchodd PB i RLG am ei gymorth gyda'r ymarfer recriwtio diweddar am Gyfarwyddwr Cyswllt – Cyfathrebu a Chydberthnasau â Rhanddeiliaid. Penodwyd unigolyn a fyddai'n cychwyn ar ddechrau mis Ebrill. Hefyd nododd PB y gwelwyd peth trosiant staff lefel isel dros y misoedd diwethaf yn ôl y disgwyl a chadarnhaodd fod seibiant gyrfa wedi'i gymeradwyo. Nododd PB fod recriwtio yn gofyn am lawer o waith ac yn cael effaith ar y gyllideb pan fo swyddi gwag yn codi.

4.6. ***Fforwm Cyrff Dyfarnu*** – cynhaliwyd yr ail fforwm blynyddol ym mis Rhagfyr 2017. Er gwaethaf y tywydd gwael roedd llawer o gyrff dyfarnu yn bresennol, a chafwyd adborth cadarnhaol.

4.7. ***Prif Weithredwr CBAC*** – cadarnhaodd PB fod Roderick Gillespie wedi'i benodi ac y byddai'n dechrau yn y rôl ym mis Mehefin. Bydd Gareth Pierce yn ymddeol ddiwedd mis Mai. Hysbysodd PB y Bwrdd y byddwn yn gweithio gyda CBAC er mwyn deall sut y caiff y rôl ei throsglwyddo a sut y gallwn gefnogi hynny.

4.8. Nododd aelod o'r Bwrdd fod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Lloegr wedi ystyried prentisiaethau yn ddiweddar ac y bu rhai pryderon am ansawdd, yn enwedig o ran asesiadau terfynol. Nododd PB mai'r brif risg i Gymru oedd tynnu cymwysterau yn ôl a oedd yn cael eu disodli gan asesiadau terfynol. Roedd hyn yn cael ei fonitro'n agos.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nodi adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – WEDI'I NODI

5. Cyfres Arholiadau'r Gaeaf

5.1. Cyflwynodd Jo Richards (JR) y papur ar gyfres arholiadau gaeaf 2017 a chynllun monitro cymwysterau cyffredinol haf 2018. Cadarnhaodd fod canlyniadau cyfres mis Tachwedd wedi'u cyhoeddi ar 11 Ionawr 2018 yn ôl y bwriad. Y diwrnod canlyniadau nesaf fydd 7 Mawrth 2018 ar gyfer cyfres mis Ionawr.

5.2. Cadarnhaodd JR fod gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer cyfres yr haf a nodi unrhyw risgiau posibl.

5.3. Hysbysodd JR y Bwrdd fod pryderon wedi'u codi gyda Cymwysterau Cymru am yr amser addysgu / lle ar y cwricwlwm sy'n ofynnol ar gyfer TGAU Daearyddiaeth a'n bod yn ymchwilio i'r mater.

5.4. Hefyd nododd JR bryder yng Nghymru o ran y nifer uchel o arholwyr a oedd yn ymddeol o addysgu a'r ffaith bod nifer isel o arholwyr cyfrwng Cymraeg ar gael.

5.5. Trafododd y Bwrdd gynllun monitro cyfres yr haf a holodd a oedd y sefydliad yn fodlon ar y dull monitro a'r adnoddau oedd ar gael. Nododd PB ei bod yn fuddiol cael un corff dyfarnu ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol gan fod hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ein hadnoddau a pheidio â'u lledaenu'n rhy denau.

5.6. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio fod y cynllun monitro wedi'i ystyried yn fanwl yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor a chadarnhawyd ei fod yn briodol ym marn y pwyllgor.

5.7. Diolchodd y Bwrdd i JR a'i thîm am y gwaith sylweddol a wnaed.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i) Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd am gyfres arholiadau gaeaf 2017 a chynllun monitro cymwysterau cyffredinol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018.

6. Sesiwn Wybodaeth Cymwysterau Galwedigaethol

6.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi bod y Bwrdd wedi gofyn am sesiwn wybodaeth ar gymwysterau galwedigaethol. Cynlluniwyd y sesiwn hon er mwyn rhannu gwybodaeth yn ogystal â chasglu adborth gan aelodau'r Bwrdd er mwyn llywio cynnwys sesiynau yn y dyfodol.

6.2. Rhoddodd Kate Crabtree (KC) a Gareth Downey (GD) gyflwyniad a oedd yn cynnwys trosolwg o'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, ac amlinellwyd rhai o'r prif heriau polisi dros y tair i bum mlynedd nesaf sy'n debygol o effeithio ar gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru.

6.3. Croesawodd y Bwrdd y sesiwn ac yn dilyn trafodaeth cadarnhaodd y byddai sesiwn bellach yn ddefnyddiol er mwyn cynnwys gwybodaeth fanylach am:

- y risgiau i Gymru yn sgil cyflwyno lefelau T;
- dealltwriaeth o safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch lefelau T a phrentisiaethau;
- strategaeth Economaidd Llywodraeth Cymru a'r strategaeth Cyflogadwyedd sydd ar droed;
- goblygiadau o ran adnoddau i'r sefydliad / goblygiadau i'r strategaeth cymwysterau galwedigaethol;

- ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol yn gyffredinol.

6.4. Diolchodd y Bwrdd i KC a GD am y sesiwn werthfawr.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y wybodaeth a rannwyd a chytunodd y dylai sesiynau yn y dyfodol gwmpasu'r eitemau a restrir ym mhwyntiau 6.3 uchod.

7. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cwricwlwm

7.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem gan nodi bod y Bwrdd wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y Cwricwlwm newydd i Gymru a chyfraniad y sefydliad ato hyd yn hyn.

7.2. Cyflwynodd KC y sesiwn gan grynhoi Dyfodol Llwyddiannus, pedwar diben y cwricwlwm newydd, y meysydd dysgu a phrofiad, y cynnydd hyd yn hyn a'r amserlenni presennol.

7.3. Trafododd y Bwrdd, mewn peth manylder, gynnwys y sesiwn a dadleuodd wahanol agweddau gan gynnwys rôl y sefydliad yn cefnogi, yn cynghori ac yn y pen draw yn datblygu cymwysterau.

7.4. Nododd PB i sawl cwestiwn am bolisi addysg gael eu codi gyda Llywodraeth Cymru, ac y bydd yr atebion iddynt yn helpu'r sefydliad i benderfynu sut i fynd ati i ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio cymwysterau myfyrwyr 16 oed.

7.5. Nododd PB y bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall y sefydliad fynd ati i gyflwyno'r diwygiadau yn ôl amserlen Llywodraeth Cymru. Roedd PB wedi codi hyn gyda Llywodraeth Cymru a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol.

7.6. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod sawl elfen anhysbys ar hyn o bryd, a gaiff eu deall yn well gydag amser. Cadarnhaodd y Bwrdd y dylai Cymwysterau Cymru gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, gan fod yn glir ynghylch ein rôl a'n cyfrifoldebau.

7.7. Diolchodd y Bwrdd i KC am ei hymdrechion yn datblygu ac yn cyflwyno'r sesiwn a gofynnwyd i HB ychwanegu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cwricwlwm i Gymru at bob agenda Bwrdd am y tro.

Cam Gweithredu: HB i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Cwricwlwm i Gymru ar agenda pob cyfarfod Bwrdd am y tro.

Crynodeb o'r Argymhellion:

ii. Nododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniad a'r drafodaeth a gafwyd wedyn (fel y crynhoir uchod).

8. Arolwg Pobl 2017

8.1. Ymunodd Kate Welsher (KW) â'r cyfarfod a chyflwynodd ganlyniadau'r ail arolwg staff. Nododd y Bwrdd i lefelau ymgysylltu â staff gael eu cynnal ac roedd yn falch o nodi bod mwy o sgoriau cadarnhaol mewn meysydd lle bu'r rheolwyr yn canolbwyntio gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf.

8.2. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd y sgoriau negyddol yn debygol o fod yn nifer fach o unigolion a oedd yn gyson negyddol neu wahanol aelodau o staff a oedd â phryderon gwahanol. Eglurodd KW nad oedd rheolwyr yn gweld arolygon unigol ac nad oedd sylwadau yn cael eu priodoli i neb, ond roedd yn bosibl nodi themâu yr oedd mwy nag un aelod o staff wedi cyfeirio atynt. Cafodd y rhain eu trafod ymhellach yn Niwrnod Datblygu staff.

8.3. Nododd aelodau'r Bwrdd fod cwestiynau mewn rhai penawdau yn cael eu gwrthddweud mewn eraill ac awgrymwyd y dylai'r rheolwyr ystyried themâu mewn adrannau gwahanol.

8.4. Ar y cyfan, teimlai'r Bwrdd ei fod yn ganlyniad da ac roedd yn falch o weld bod sawl cam gweithredu a gymerwyd y llynedd wedi bod yn effeithiol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd ganlyniadau Arolwg Pobl 2017 a'r dadansoddiad a luniwyd, a chydnabu fwriad y sefydliad i ymateb a gweithredu ar yr arolwg yn ystod 2018.

9. Rheoli Risg

9.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad gan amlinellu'r gofrestr risg sefydliadol bresennol a nodi'r risgiau hynny lle bu cynnydd yn y sgôr weddilliol, y rheini a gafodd eu cau a'r rheini a gafodd eu diweddaru. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad a nododd y newidiadau gan ofyn am ystyried p'un a gafodd FCS17 (yn ymwneud â rheolaethau diogelu gwybodaeth a sicrwydd trydydd parti) ei sgorio'n briodol o ystyried y newidiadau arfaethedig i'r seilwaith TG. Eglurodd AS mai'r bwriad oedd dileu seilwaith a gyflwynwyd wrth osod systemau TG cychwynnol, ond nas defnyddiwyd erioed ac nad oedd ei angen - felly nid oedd risg uwch yn gysylltiedig â hyn.

9.2. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod cofrestr risg y sefydliad wedi'i hystyried yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor a bod y Pwyllgor yn fodlon arni.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd gofrestr risg ddiweddaraf y sefydliad a'r adroddiad risg lefel Bwrdd ategol.

Papur gwybodaeth – Strategaeth TG

i. Cafwyd cais gan y Bwrdd i'r papur gael ei gynnwys ar yr agenda. Canmolodd aelodau'r Bwrdd y strategaeth a nododd ei bod yn ddogfen hawdd ei darllen, yn enwedig o ystyried natur y cynnwys.

ii. Cafodd yr ymholiad yr hoffai'r Bwrdd ei godi uwchlaw'r llinell ei drafod ym mharagraff 9.1.

10. Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol (Ch3) a'r Adroddiad Ariannol (Ch3) gan gynnwys rhagolwg diwedd y flwyddyn

Ymunodd Kerry Price (KP) â'r cyfarfod.

Adroddiad ar y Cynllun Gweithredol (Chwarter tri)

10.1. Cyflwynodd HB yr adroddiad gan grynhoi hynt y blaenoriaethau gweithredol tan ddiwedd mis Rhagfyr 2017 (chwarter 3). Nododd HB ei fod ar y trywydd iawn ar y cyfan. Cafodd cynnydd ar y brif lefel ym mhob un o'r pum Blaenoriaeth Weithredol ei raddio'n wyrdd ddiwedd mis Rhagfyr.

10.2. Cafwyd rhai newidiadau i'r cynllun gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli, a chafodd y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Bydd cymwysterau galwedigaethol monitro diogelwch bwyd yn dechrau yn 2017/18, ond ni chânt eu cwblhau tan 2018/19;
- Caiff yr adolygiad o'r sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch ei ohirio tan yn ddiweddarach yn 2018/19 a bydd yn rhan o gynllun y flwyddyn nesaf.

10.3. Trafododd y Bwrdd y newidiadau gan nodi iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd fel newid posibl yn ystod cyfarfodydd cynharach. Hefyd nododd y Bwrdd fod tair swydd newydd wedi'u llenwi / wrthi'n cael eu llenwi er mwyn ychwanegu rhywfaint o gapasiti at y strwythur, ac y byddai un ohonynt yn cefnogi'r tîm cymwysterau galwedigaethol.

10.4. Roedd y Bwrdd yn fodlon ar hynt y blaenoriaethau sefydliadol a nododd y newidiadau ym mharagraff 10.8.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Adolygodd a nododd y Bwrdd yr adroddiad ar gynnydd ar gyfer chwarter tri, gan gadarnhau ei fod yn fodlon ar y newidiadau y cytunwyd arnynt i is-flaenoriaethau monitro diogelwch bwyd ac adolygiadau sector cymwysterau galwedigaethol.

Adroddiad cyllid (Chwarter tri)

10.5. Cyflwynodd KP y papur, a roddodd y rhagolwg alldro diweddaraf yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol ddiweddaraf tan ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Nododd i'r sefyllfa bresennol heddiw, dair wythnos ar ôl dyddiad yr adroddiad, newid ychydig ac y byddai'n parhau'n hylif tan ddiwedd y flwyddyn.

10.6. Yn yr adroddiad diwethaf ym mis Hydref, roedd y sefydliad yn darogan gwariant o £7.95m, a oedd yn cynnwys darpariaethau oedd yn creu cyfanswm o tua £500k ar gyfer eitemau 'llai sicr'. Roedd eitemau llai sicr yn cynnwys meysydd fel grantiau, ymchwil a chostau cyfreithiol lle na fyddai modd cyflawni gwariant tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd natur y gwaith dan sylw.

10.7. Cafodd Llywodraeth Cymru wybod ddechrau mis Rhagfyr fod yr amrywiad yn debygol o fod rhwng £350k a £400k, gyda'r cafeat fod y rhagolwg yn cynnwys rhai darpariaethau ar gyfer eitemau 'llai sicr'. Cafodd aelodau'r Bwrdd gadarnhad o hyn ar 20 Rhagfyr 2017 drwy e-bost ac ar 31 Rhagfyr roedd y sefyllfa'r un peth. Cadarnhaodd KP a PB fod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru.

10.8. Nodwyd mai'r alldro presennol a ragamcanwyd oedd £7.6m, a fyddai'n arwain at danwariant o £400k (amrywiad o 5% yn erbyn y gyllideb). Yn y rhagolwg roedd darpariaethau ar gyfer gwariant ansicr a oedd yn creu cyfanswm o £317k a oedd wrthi'n cael eu cadarnhau o hyd. Nododd KP ei bod yn anochel y byddai'r rhagolwg alldro yn newid am na fyddai rhai o'r eitemau ansicr hyn yn cael eu gwireddu.

10.9. Trafododd y Bwrdd y sefyllfa o ran alldro, y rhesymau dros y newid a'r risgiau cysylltiedig. Nododd y Bwrdd, er bod rhagolwg 2017-18 yn cyflwyno tanwariant, na ddisgwylir gweld yr un peth yn 2018-19. Mae cyllideb 2018-19 wrthi'n cael ei llunio'n derfynol yn barod i'r Bwrdd ei hystyried ym mis Mawrth. Nododd fersiynau cychwynnol nifer o geisiadau twf newydd a oedd, gyda'i gilydd, yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Myfyriodd KP ar y gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â phennu'r gyllideb a chafodd y Bwrdd dawelwch meddwl yn sgil hyn. Nododd y Bwrdd hefyd fod mwy o hanes a lefel data bellach ar gael er mwyn helpu i gynllunio a phennu cyllidebau.

10.10. Gofynnodd y Bwrdd a oedd angen i ddeiliaid cyllideb gael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio, proffilio a rheoli cyllideb mor gywir ac effeithiol â phosibl. Cadarnhaodd KP fod rhywfaint o hyn wedi'i gyflawni a bod gwaith monitro misol a chwarterol wedi gwella er mwyn cefnogi deiliaid cyllideb.

10.11. Nododd PB fod a wnelo'r brif wers â'r blaenoriaethau gweithredol a sicrhau bod y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn realistig ac yn gyson â'r broses cynllunio ariannol. Roedd yn hyderus bod hyn wedi parhau i aeddfedu ac y byddai'n gwella ymhellach yn 2018/19.

10.12. Holodd y Bwrdd p'un a wnaed unrhyw ddarpariaeth yn 2018/19 i gefnogi cost diwygio cymwysterau yn gysylltiedig â datblygu'r cwricwlwm. Cadarnhaodd KP fod peth darpariaeth, ond y gallai fod angen arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Bydd trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r gofynion ariannol. Anogodd y Bwrdd PB a chydweithwyr i barhau i fynd ati i gynllunio a thrafod opsiynau cyllid gyda Llywodraeth Cymru – gan gydnabod bod recriwtio staff ychwanegol yn cymryd amser.

10.13. Nododd y Bwrdd fod y sefydliad o dan rywfaint o bwysau o ran capasiti ac anogodd PB i ystyried meithrin capasiti lle bo modd a'i fod yn briodol gwneud hynny.

10.14. Diolchodd y Bwrdd i KP am yr eglurder a roddwyd yn yr adroddiad a chadarnhaodd ei fod yn nodi'r rhagolwg alldro a'r trefniadau oedd ar waith i reoli'r risgiau parhaus.

Crynodeb o'r Argymhellion:

ii. Nododd y Bwrdd y rhagolwg alldro a'r trefniadau oedd ar waith i reoli'r risgiau parhaus.

11 Adroddiad y Pwyllgor Rheoleiddio

11.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 14 Rhagfyr. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd cofnodion 20 Medi 2017 wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor ar 14 Rhagfyr yn ymwneud â'r gyfres arholiadau a'r cynllun cychwynnol ar gyfer ymchwilio i ffioedd a gwasanaethau cyrff dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Hefyd cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y Tîm Cefnogi Canolfannau a ganmolwyd am ei arbenigedd a'r gwasanaeth y mae'r tîm yn ei ddarparu i ganolfannau. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cynnal ei archwiliad o drefniadau llywodraethu.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

12 Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r Pwyllgor

12.1 Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi a gafodd eu rheoli y tu allan i'r pwyllgor.

13 Calendr y Bwrdd

13.1 Cadarnhaodd HB y calendr cyfarfodydd sydd ar waith hyd at fis Gorffennaf 2018 a nodwyd ar yr agenda. Mae cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu tan fis Gorffennaf 2019. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Mawrth 2018.

14 Unrhyw Fater Arall

14.1 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall. Codwyd yr eitemau canlynol:

14.2 *Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol* – Holodd y Bwrdd sut roedd gwaith i gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol newydd yn mynd rhagddo. Cadarnhaodd HB fod hyn ar y trywydd iawn ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i ARAC ym mis Chwefror ac yna'r Bwrdd ym mis Mawrth. Hefyd cynlluniwyd adolygiad archwilio allanol o gynnydd ar gyfer mis Mawrth 2018.

14.3 *Recriwtio aelodau o'r Bwrdd* – Holodd y Bwrdd a fyddai rhywun yn cymryd lle Alun Llwyd fel aelod ar ôl iddo adael ym mis Mawrth. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod yn debygol y byddai rhywun arall yn cael ei benodi, ond y byddai hyn yn cael ei ystyried ynghyd â'r argymhellion ailbenodi a fyddai'n cael eu gwneud yn dilyn yr adolygiadau o berfformiad y Bwrdd.

14.4 *Ymateb i'r ymgynghoriad (Lefelau T)* – nododd y Cadeirydd fod yr Adran Addysg yn Lloegr wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar Lefelau T ac y byddai'r sefydliad yn ymateb iddo. Oherwydd yr amserlenni, gofynnodd y Cadeirydd am i'r gwaith o gymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad gael ei ddirprwyo i grŵp bach o aelodau'r Bwrdd. Oherwydd natur arwyddocaol yr ymgynghoriad, roedd yr ymateb yn dod o dan awdurdod y Bwrdd. Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Chadeirydd ARAC.

14.5 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.10.

Cynhaliwyd cyfarfod caeedig o'r Bwrdd wedyn.

Diwedd